Winter 23 | Edition 04

# AIC Cymru

WORKING IN SUPPORT OF **MODERN SUSTAINABLE COMMERCIAL AGRICULTURE**



## Welcome

Dear AIC Members,

Welcome to the Winter AIC Cymru Journal for 2023, bringing you key updates on those issues, policies and directions that are specific to Wales.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

# Development of AIC Cymru

**AIC Cymru has had a busy first year holding four committee meetings, the last of 2023 taking place on 20 October in Aberystwyth.**

At this meeting the AIC Cymru Committee reviewed its progress and made plans to keep the momentum we have built through engagement with Welsh Government and key industry stakeholders. We are increasingly seen as a reliable and credible source of information, market analysis and the voice of the agri-supply industry in Wales.

During the meeting we bid a fond farewell to Eric Thomas who will retire early in the New Year after a long and successful career with Wynnstay. The Committee warmly thanked Eric for his participation not only for this past year with AIC Cymru, but his long and valuable association with AIC particularly on the Feed Committee.

Eric's position on the Committee will be filled by a new Member to be appointed before the next meeting in January 2024.




Gareth Davies - Eric Thomas - Michael Muncey

# Marking milestones at the Royal Welsh Show

**AIC and AIC Cymru held an informal drinks reception on the first day of this year's Royal Welsh Show (24 July) to celebrate 20 years of AIC and one year of AIC Cymru.**




This event was a great success with a strong level of attendance from Members and stakeholders, including the Welsh Government's Rural Affairs Minister Lesley Griffiths MS, who was kind enough to give a short speech to guests.

Event timing, venue, and the informal relaxed atmosphere after a busy first day for all at the show, was widely considered to be an asset. AIC's Chief Executive Robert Sheasby and Chair Chris Guest shared their delight at the growing visibility and credibility of AIC Cymru.

Following the success, AIC Cymru will have presence at the Welsh Royal Show in 2024.

# Latest policy developments

**AIC Cymru maintains its communication to Welsh Government that there is a willingness and offer from the agri-supply chain industry in Wales to be instrumental in providing advice, innovation, expertise, and verification of outcomes of the Sustainable Farming Scheme (SFS).**

It is frustrating that a "closed" Farming Connect and consultancy paid approach is being advocated by Welsh Government which is now totally funded by taxpayers' money. Previously, European Development Funding had been part of the funding, but this is no longer possible given EU Exit.

Constructive meetings have been held with the business consultancy Menter a Busnes, the Welsh Government's tendered administration provider to facilitate the Farming Connect programme. Welsh Government's request that AIC Cymru provide a position paper on the agri-supply industry's resource is seen as a positive step forward.



Some £22.9m of taxpayers' money had been announced on the 23 February to fund Farming Connect up to March 2025 to support the transition to SFS. AIC Cymru maintains its view that this is not an optimal use of Welsh taxpayers' money. The agri-supply industry already funds significantly more people on the ground with strong expertise, and has provision for continuous training and development.

AIC Cymru is making the case that, beyond March 2025, it should become part of any advice and baseline verification need, as part of any universal actions required under the SFS.

# Winter Fair, Welsh Royal Show Ground




AIC Cymru will be attending the Winter Fair on 27 November. While there won't be a stand at the Fair, meetings are planned with Welsh Government, AIC Members and farming unions. Please contact AIC Cymru Policy Manager Michael Muncey (michael.muncey@agindustries.org.uk) if you would like to arrange a meeting. We hope to see you there and wish all Members an enjoyable and productive event.

# The Agriculture (Wales) Bill becomes law

**The Agriculture (Wales) Act received Royal Assent in August 2023. This is the first ever Agriculture Act specifically for Wales and gives Welsh ministers the power to provide future farm support. It replaces the limited powers in the Agriculture Act 2020, which are due to expire in 2024.**

While the main focus of the Act is to facilitate delivery of the new Sustainable Farming Scheme (SFS), it also allows for the banning of snares and glue traps and provides tenant farmers with a route to dispute resolution to ensure they are not unfairly restricted from accessing financial assistance, such as SFS.



# Wales Future Agricultural Policy update

**AIC Cymru welcomes the news that 96% of farmers would receive an advanced payment worth 70% of their Basic Payment Scheme, as announced 12 October.**

This saw more than £158m shared by more than 15,600 farms and is the third consecutive year that Rural Payments Wales (RPW) has made automatic Basic Payment Scheme (BPS) advance payments in October.

AIC Cymru Policy Manager Michael Muncey said: "The announcement from Rural Affairs Minister, Lesley Griffiths MS, is a significant boost for the cash flow for farmers in Wales."


NFU Cymru President Aled Jones commented: "I would like to recognise the work of the staff at RPW for ensuring that this support can be delivered to make these payments and to all those who support farming businesses with the completion of the Single Application Form by the May deadline date."



## Share your feedback

As AIC Cymru Policy Manager, Michael Muncey continues to forge valuable relationships with Members and stakeholders. Feedback and suggestions as to how AIC Cymru can better engage, support, and represent its Membership is welcome.

michael.muncey@agindustries.org.uk



# Exemptions for manure spreading limits announced

**Livestock farmers in Wales can continue to spread organic manures on land at the higher rate of 250kg/ha of nitrogen a year until 2025 under certain conditions, the Welsh Government has announced.**

It comes after AIC Cymru and others responded a consultation on proposals for a licensing scheme for farmers who needed to operate above the basic 170kg/ha annual holding nitrogen limit.

Instead, exemptions will apply for farmers where there is a crop need and subject to certain extra, but so far unspecified environmental protection conditions. The Welsh Government has now scrapped the license proposals and will instead introduce an "enhanced nutrient management approach" to cover the period from 1 January to 31 December 2024.

AIC Cymru sees the move as a positive outcome for Welsh agriculture.

# Budget cuts a concern for Welsh agriculture

**The slashing of the Government's rural affairs budget in Wales by £37.5m is a major concern for farmers, AIC Cymru believes.**

On 17 October, the Welsh Minister for Finance, Rebecca Evans MS, delivered a statement to the Senedd outlining cuts to several Welsh Government portfolios to address a significant shortfall in the wider Welsh budget.

As a result, the Rural Affairs revenue budget has been revised down by £17.3m, while the Rural Affairs capital budget will decrease by £20.2m – this represents a cut of almost 8%.

The Welsh Government's Rural Affairs budget, which includes agriculture, currently makes up just 2% of total spending.

According to NFU Cymru figures, farmers manage 80% of the total Welsh land area, forming part of an agri-food industry which is worth £8.5 billion to the economy.



## Dates for the diary

| | |
|---|---|
| AIC Seed Trade Dinner | **30 November** |
| AIC Cymru Committee Meeting | **24 January** |



# Call for clarity on Habitat Wales Scheme

**The industry has called for greater clarity on funding for the new Habitat Wales Scheme, which opened for application in late September.**

A written statement from Lesley Griffiths MS, Minister for Rural Affairs, confirmed that applications for the scheme would open on 29 September, with contracts commencing in January 2024.

However, details of the budget for the new interim scheme remain scant, with the lack of clarity causing confusion and apprehension amongst farmers and landowners who are considering applying, in particular the thousands of farmers who held Glastir contracts previously.

There have been no reassurances from the Welsh Government that the new scheme will match levels of income currently seen by farmers through the outgoing Glastir land management scheme.

AIC Cymru and farming unions are concerned that Glastir contract-holders, many of whom have participated in agri-environment schemes for decades, stand to potentially lose a significant part of their income from 2024. The industry needs certainty to make long-term plans.

Unfortunately, the Minister's recent statement has done little to address the uncertainty surrounding the detail of the Habitat Wales Scheme. With a matter of months before contracts are set to commence, farming unions say that farm businesses need answers to inform their decisions on whether to join the scheme.


# AIC website – set up personal preferences on login

**Did you know that you can update your personal preferences and opt in options of your profile on AIC's website?**

When logging in by clicking the icon in the top right corner, click on 'Edit profile' and 'Contact Preferences' to select the topics of interest to you.

You can also choose how you wish to be contacted and tailor your opt-in preferences for Member briefings.

Remember to visit www.agindustries.org.uk for the latest news and insight from AIC's team, and don't forget to follow AIC on LinkedIn and X for regular updates.



aic CYMRU agricultural industries confederation

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: 01733 385230
Email: enquiries@agindustries.org.uk

RDP COMMS Design & Development by RDP

aic CYMRU agricultural industries confederation ®

Gaeaf 23 | Rhifyn 04

# AIC Cymru

YN GWEITHIO I GEFNOGI **AMAETHYDDIAETH FODERN FASNACHOL A CHYNALIADWY**



## Croeso

Annwyl aelodau AIC,

Croeso i gylchlythyr hydref AIC Cymru ar gaeaf 2023, sy'n dod â diweddariadau allweddol i chi ar y materion, y polisïau a'r cyfarwyddiadau hynny sy'n benodol i Gymru.



**Michael Muncey**
AIC Cymru Policy Manager

## Datblygu AIC Cymru

**Mae AIC Cymru wedi cael blwyddyn gyntaf brysur yn cynnal pedwar cyfarfod pwyllgor, gyda'r olaf yn 2023 yn cael ei gynnal ar 20 Hydref yn Aberystwyth.**

Yn y cyfarfod hwn adolygodd Pwyllgor AIC Cymru ei gynnydd a gwnaeth gynlluniau i gadw'r momentwm rydym wedi'i godi drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y diwydiant. Cawn ein gweld fwyfwy fel ffynhonnell ddibynadwy a chredadwy o wybodaeth, dadansoddiad o'r farchnad a llais y diwydiant cyflenwi amaeth yng Nghymru.

Yn ystod y cyfarfod rydym yn ffarwelio ag Eric Thomas a fydd yn ymddeol yn gynnar yn y flwyddyn newydd ar ôl gyrfa hir a llwyddiannus gyda Wynnstay. Diolchodd y Pwyllgor yn gynnes i Eric am gymryd rhan, nid yn unig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gydag AIC Cymru, ond hefyd am ei gysylltiad hir a gwerthfawr ag AIC yn enwedig ar y Pwyllgor Bwyd Anifeiliaid.

Bydd lle Eric ar y Pwyllgor yn cael ei lenwi gan aelod newydd i'w benodi cyn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2024.




Gareth Davies - Eric Thomas - Michael Muncey

# Nodi cerrig milltir yn Sioe Frenhinol Cymru

**Cynhaliodd AIC ac AIC Cymru dderbyniad anffurfiol â diodydd ar ddiwrnod cyntaf Sioe Frenhinol Cymru eleni (24 Gorffennaf) i ddathlu 20 mlynedd o AIC a blwyddyn gyntaf AIC Cymru.**

Roedd y digwyddiad hwn yn llwyddiant mawr gyda phresenoldeb gref gan aelodau a rhanddeiliaid, gan gynnwys Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, Lesley Griffiths AS, a oedd yn ddigon caredig i roi araith fer i westeion.

Roedd amseru'r digwyddiadau, y lleoliad, a'r awyrgylch hamddenol anffurfiol ar ôl diwrnod cyntaf prysur i bawb yn y sioe, yn cael ei ystyried yn gyffredinol, yn ased. Rhannodd Prif Weithredwr AIC, Robert Sheasby, a'r Cadeirydd, Chris Guest, eu llawenydd o weld gwelededd a hygrededd cynyddol AIC Cymru.

Yn dilyn y llwyddiant, bydd gan AIC Cymru bresenoldeb yn Sioe Frenhinol Cymru yn 2024.




# Datblygiadau polisïau diweddaraf

**Mae AIC Cymru yn parhau i gyfathrebu â Llywodraeth Cymru i gyfleu parodrwydd diwydiant y gadwyn gyflenwi amaeth yng Nghymru i gyfrannu i ddarparu cyngor, arloesedd, arbenigedd, a gwirio canlyniadau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.**

Mae'n rhwystredig bod dull "caeedig" Cyswllt Ffermio ac ymgynghori â thâl yn cael ei eirioli gan Lywodraeth Cymru sydd bellach yn cael ei ariannu'n llwyr gan arian trethdalwyr. Cyn hyn, roedd arian o Gronfa Ddatblygu Ewrop wedi bod yn rhan o'r cyllid, ond nid yw hyn yn bosibl mwyach o ystyried ymadael â'r UE.

Mae cyfarfodydd adeiladol wedi'u cynnal gyda'r cwmni ymgynghori busnes Menter a Busnes, darparwr gweinyddiaeth tendro Llywodraeth Cymru i hwyluso rhaglen Cyswllt Ffermio. Mae cais Llywodraeth Cymru i AIC Cymru ddarparu papur safbwynt ar adnodd y diwydiant cyflenwi amaeth yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol ymlaen.

Ar 23 Chwefror, cyhoeddwyd bod tua £22.9 miliwn o arian trethdalwyr yn cael ei defnyddio i ariannu Cyswllt Ffermio tan fis Mawrth 2025 er mwyn cefnogi'r newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae AIC Cymru yn dal i gredu nad yw hyn yn gwneud y defnydd gorau o arian trethdalwyr Cymru. Mae'r diwydiant cyflenwi amaeth eisoes yn ariannu llawer mwy o bobl ar lawr gwlad ag arbenigedd cryf, a cheir darpariaeth ar gyfer hyfforddiant a datblygiad parhaus.

Mae AIC Cymru yn dadlau, y tu hwnt i fis Mawrth 2025, y dylai ddod ymwneud ag unrhyw angen i gael cyngor a phrawf dilysu sylfaenol, fel rhan o unrhyw gamau cyffredinol sy'n ofynnol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.



# Ffair Aeaf, Maes Sioe Frenhinol Cymru

Bydd AIC Cymru yn mynychu'r Ffair Aeaf ar 27 Tachwedd. Er na fydd stondin yn y Ffair, mae cyfarfodydd wedi'u cynllunio gyda Llywodraeth Cymru, aelodau AIC ac undebau ffermio. Cysylltwch â Michael Muncey, Rheolwr Polisi AIC Cymru (michael.muncey@agindustries.org.uk) os hoffech i ni drefnu cyfarfod. Gobeithiwn eich gweld yno ac rydym yn dymuno digwyddiad pleserus a chynhyrchiol i bob aelod.



# Daw Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn gyfraith

**Derbyniodd Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Awst 2023. Dyma'r Ddeddf Amaethyddiaeth gyntaf erioed yn benodol ar gyfer Cymru ac mae'n rhoi'r pwerau i weinidogion Cymru ddarparu cymorth i ffermydd yn y dyfodol. Mae'n disodli'r pwerau cyfyngedig yn Neddf Amaethyddiaeth 2020, sydd i fod i ddod i ben yn 2024.**

Er mai prif ffocws y Ddeddf yw hwyluso'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu ar gyfer gwahardd maglau a thrapiau glud ac mae'n rhoi llwybr i ffermwyr sy'n denantiaid i ddatrys anghydfod er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cyfyngu'n annheg rhag cael mynediad at gymorth ariannol, megis y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.



# Diweddariad Polisi Amaethyddol Cymru ar gyfer y Dyfodol

Mae AIC Cymru yn croesawu'r newyddion y bydd 96% o ffermwyr yn cael taliad ymlaen llaw gwerth 70% o'u Cynllun Taliad Sylfaenol, fel y cyhoeddwyd ar 12 Hydref.

Bydd hyn yn golygu bod mwy na £158m yn cael ei rannu gan fwy na 15,600 o ffermydd a dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i Daliadau Gwledig Cymru (RPW) wneud rhagdaliadau awtomatig Cynllun Taliad Sylfaenol ym mis Hydref.

Dywedodd Michael Muncey, Rheolwr Polisi AIC Cymru: "Mae cyhoeddiad y Gweinidog Materion Gwledig, Lesley Griffiths AS, yn hwb sylweddol i lif arian ffermwyr Cymru."

Dywedodd Llywydd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru, Aled Jones: "Hoffwn gydnabod gwaith staff Taliadau Gwledig Cymru, am sicrhau y gellir darparu'r cymorth hwn i wneud y taliadau hyn ac i bawb sy'n cefnogi busnesau ffermio i gwblhau Ffurflen y Cais Sengl erbyn y dyddiad cau ym mis Mai."



## Rhannwch eich adborth

Fel Rheolwr Polisi AIC Cymru, mae Michael Muncey yn parhau i feithrin cydberthnasau gwerthfawr ag aelodau a rhanddeiliaid. Mae adborth ac awgrymiadau ar sut y gall AIC Cymru ymgysylltu, cefnogi a chynrychioli ei aelodaeth yn well yn cael ei groesawu.



michael.muncey@agindustries.org.uk



# Cyhoeddi esemptiadau ar gyfer terfynau taenu tail

**Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y gall ffermwyr da byw yng Nghymru barhau i wasgaru tail organig ar dir ar y gyfradd uwch o 250kg/ha o nitrogen y flwyddyn tan 2025 o dan amodau penodol.**

Daw hyn ar ôl i AIC Cymru ac eraill ymateb i ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer cynllun trwyddedu i ffermwyr sydd angen gweithredu uwchlaw'r terfyn blynyddol fesul daliad sylfaenol o 170kg/ha o nitrogen.

Yn lle hynny, bydd eithriadau'n berthnasol i ffermwyr yn dibynnu ar anghenion y cnwd ac yn amodol ar amodau diogelu'r amgylchedd ychwanegol, nad ydynt wedi'u pennu hyd yn hyn. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cael gwared ar gynigion trwydded a bydd yn hytrach yn cyflwyno "dull rheoli maethynnau uwch" ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2024.

Mae AIC Cymru yn gweld y newid fel canlyniad cadarnhaol i amaethyddiaeth Cymru.

# Toriadau i'r gyllideb yn peri pryder i amaethyddiaeth yng Nghymru

**Mae torri £37.5m o gyllideb materion gwledig y Llywodraeth yng Nghymru yn bryder mawr i ffermwyr, ym marn AIC Cymru.**

Ar 17 Hydref, cyflwynodd Gweinidog Cyllid Cymru, Rebecca Evans AS, ddatganiad i'r Senedd yn amlinellu toriadau i nifer o bortffolios Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â diffyg sylweddol yng nghyllideb ehangach Cymru.

O ganlyniad, mae cyllideb refeniw Materion Gwledig wedi gostwng £17.3m, a bydd cyllideb cyfalaf Materion Gwledig yn gostwng £20.2m – mae hyn yn doriad o bron i 8%.

Ar hyn o bryd, dim ond 2% o gyfanswm gwariant yw cyllideb Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys amaethyddiaeth.

Yn ôl ffigyrau NFU Cymru, mae ffermwyr yn rheoli 80% o holl arwynebedd tir Cymru, sy'n rhan o ddiwydiant amaeth fwyd sydd werth £8.5 biliwn i'r economi.



## Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur

| | |
|---|---|
| Cinio Masnach Hadau AIC | **30 Tachwedd** |
| Cyfarfod Pwyllgor AIC Cymru | **24 Ionawr** |



# Galwad am eglurder ar Gynllun Cynefin Cymru

**Mae'r diwydiant wedi galw am fwy o eglurder ynghylch cyllid ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru newydd, a agorodd ar gyfer ceisiadau ddiwedd mis Medi.**

Cadarnhaodd datganiad ysgrifenedig gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, y byddai ceisiadau ar gyfer y cynllun yn agor ar 29 Medi, gyda chontractau'n dechrau ym mis Ionawr 2024.

Fodd bynnag, prin yw manylion y gyllideb ar gyfer y cynllun interim newydd o hyd, ac mae'r diffyg eglurder yn achosi dryswch a phryder ymhlith ffermwyr a thirfeddianwyr sy'n ystyried gwneud cais, yn enwedig y miloedd o ffermwyr a oedd â chontractau Glastir yn flaenorol.

Ni chafwyd unrhyw sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd lefelau incwm y cynllun newydd yn cyfateb i'r lefelau incwm a welir ar hyn o bryd gan ffermwyr drwy gynllun rheoli tir Glastir sy'n cael ei ddisodli.

Mae AIC Cymru ac undebau ffermwyr yn pryderu y gallai deiliaid contract Glastir, y mae llawer ohonynt wedi cymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol ers degawdau, golli rhan sylweddol o'u hincwm o 2024 ymlaen. Mae angen sicrwydd ar y diwydiant i wneud cynlluniau hirdymor.

Yn anffodus, nid yw datganiad diweddar y Gweinidog wedi gwneud llawer i fynd i'r afael â'r ansicrwydd ynghylch manylion Cynllun Cynefin Cymru. Gyda misoedd yn unig cyn y disgwylir i'r cytundebau ddechrau, dywed undebau ffermwyr fod angen atebion ar fusnesau fferm er mwyn llywio eu penderfyniadau ynghylch ymuno â'r cynllun ai peidio.

# Gwefan AIC - sefydlu dewisiadau personol wrth fewngofnodi

Oeddech chi'n gwybod y gallwch chi ddiweddaru eich dewisiadau personol a dewis opsiynau eich proffil ar wefan AIC?

Wrth fewngofnodi trwy glicio ar yr eicon yn y gornel dde uchaf, cliciwch ar 'Edit profile' a ' Contact Preferences' i ddewis y pynciau sydd o ddiddordeb i chi.

Gallwch hefyd ddewis sut yr hoffech i ni gysylltu â chi a theilwra eich dewisiadau ar gyfer sesiynau briffio aelodau.

Cofiwch ymweld ag www.agindustries.org.uk i gael y newyddion a'r mewnwelediad diweddaraf gan dîm AIC, a pheidiwch ag anghofio dilyn AIC ar LinkedIn ac X i gael diweddariadau rheolaidd.




aic CYMRU agricultural industries confederation

Agricultural Industries Confederation Ltd
First Floor, Unit 4 The Forum,
Minerva Business Park,
Lynch Wood, Peterborough, PE2 6FT.

Tel: **01733 385230**
Email: **enquiries@agindustries.org.uk**

RDP COMMS Design & Development by RDP